Mwynhau dysgu a llwyddo gyda'n gilydd.

Ysgol Carreg Emlyn

Clocaenog, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 2AY

Tel: Clocaenog 01824 750636

ysgol.carreg.emlyn@sirddinbych.gov.uk

www.ysgolcarregemlyn.cymru

@carregemlyn

Newyddion 26/6/23 News

Dyddiadau i'w Cofio
Dates for your Diary.

27/6/23 Bl 3 a 4 – Ymweliad a Llyn Tryweryn Visit Yr 3 & 4
28-30/6/23 Bl 5 a 6 –Caerdydd/Cardiff – Yr 5 & 6
3/7/23 Derbyn, Bl 1 a 2 – Ymweliad a Llyn Tegid Bala *Visit Reception, Yr 1 & 2*
28/6/23 Clwb Aml Chwaraeon yr Urdd *Multi Sports Club.*
30/6/23 Bl 1 a 2 – NOFIO – Yr 1 & 2
5 & 12/7/23 Clwb Aml Chwaraeon yr Urdd *Multi Sports Club.*
7/7/23 Diwrnod Anwytho - cyfle i bawb fynd i'w dosbarthiadau newydd am y diwrnod/ *Transition day – a chance for everyone to go to their new classes for the day.*
7/7/23 – DIM NOFIO / NO SWIMMING
10/7/23 Mabolgampau'r Ysgol / *School Sports* 1pm.
13/7/23 Picnic ar y Cae Cyfeillion yr Ysgol / *Picnic on the Field – Friends of the School 6pm.*
13/7/23 Bl 6 yn aros dros nos yn yr ysgol / *Yr 6 sleepover at school*
14/7/23 Bl 1 a 2 – NOFIO – Yr 1 & 2
17/7/23 Gwasanaeth gadael Bl 6 / Yr 6 leavers' service – 9.45am
19/7/23 Diwrnod ola'r tymor i'r plant / *Last Day of term for children*

Bwydlen Cinio Ysgol/ School Lunch Menu
Primary Menus - Denbighshire School Meals
Wythnos 3/ Week 3

Cysylltu gyda'r Ysgol
Contacting School

Bydd Bl 5 a 6 yn ymweld a Chaerdydd o ddydd Mercher tan Dydd Gwener. Gan y bydd Miss Jones yn mynd gyda'r plant ni fydd unrhyw un yn y swyddfa dydd Iau a Gwener. **Gofynnwn i chi ffonio os oes unrhyw negeseuon pwysig ar y Dydd Iau neu Gwener gan na fydd yr ebost yn cael ei wirio yn barhaol**. Bydd Mrs Hitchmough yn y swyddfa ddydd Mercher.
Yr 5 and 6 will be going to Cardiff from Wednesday until Friday. As Miss Jones will be accompanying them there will be no one in the Office on Thursday and Friday. ***We ask that you telephone school if you have any important messages as the school email may not be monitored constantly.*** *Mrs Hitchmough will be in the Office on Wednesday.*

Cofia ddweud, Cadwa'n Ddiogel
Speak out, Stay Safe

Bydd plant Derbyn i Bl 6 yn cael gwersi Cofia Ddweud, Cadwa'n Ddiogel wedi eu cynllunio gan yr NSPCC yr wythnos yma. Mae llythyr i rieni gyda mwy o fanylion ynghlwm gyda'r cylchlythyr. *Reception to yr 6 pupils will have Speak Out, Speak Safe lessons this week designed by the NSPCC. There is a letter with more information attached with the newsletter.*

Holiadur Peryglon
Dangerpoint Questionnaires

Mae staff Pentreperyglon wedi gofyn a fyddai rhieni yn fodlon llenwi yr holiadur yma yn dilyn ymweliad plant yr ysgol â'r ganolfan. Mae nhw am wybod os oes newid wedi bod yn ymddygiad y plant yn ymwneud a diogelwch yn dilyn yr ymweliad. Felly a wnaiff rhieni Bl 3, 4, 5 a 6 lenwi'r holiadur. http://bit.ly/PPHolRh

Dangerpoint staff are asking if parents would kindly fill in this questionnaire following our visit there a few weeks ago. They would like to know if there has been any changes to your child's behaviour relating to safety following their visit. Can Yr 3, 4, 5 and 6 parents therefore fill in the questionnaire. http://bit.ly/PPHolRh

Ymweliad Bl 3 a 4
Llyn Tryweryn
Yr 3 & 4 Visit

Cofiwch y bydd Bl 3 a 4 yn ymweld a Llyn Tryweryn yfory. Bydd angen iddyn nhw ddod a phecyn bwyd ac hefyd cofio het haul a chot law gyda 'hood' rhag ofn i ni gael glaw! Cofiwch hefyd dalu a rhoi caniatâd ar PARENTPAY. *A reminder that Yr 3 & 4 are visiting Tryweryn Lake tomorrow. They will need a packed lunch and also sun hat and coat with hood in case of rain. Remember to pay and give consent on PARENTPAY.*

Ymweliad Derbyn, Bl 1 a 2
Llyn Tegid
Reception, Yr 1 & 2 Visit

Bydd Derbyn, Bl 1 a 2 yn mynd i Lanuwchlyn ac yn cael mynd ar y trên bach ar hyd Llyn Tegid Dydd Llun nesaf. Bydd angen iddyn nhw ddod a phecyn bwyd ac hefyd cofio het haul a chot law gyda 'hood' rhag ofn iddi lawio! Cofiwch hefyd dalu a rhoi caniatâd ar PARENTPAY.*Reception, Yr 1 & 2 will be going to Llanuwchlyn and catching the train to travel along Tegid Lake next Monday They will need a packed lunch and also sun hat and coat with hood in case of rain! Remember to pay and give consent on PARENTPAY.*

Plant ar lein / Children on line

Yn dilyn gwersi diweddar yn yr ysgol mae wedi dod i'r amlwg fod rhai o'r plant hynaf yn gwylio pethau amhriodol ar gyfryngau cymdeithasol. Llenwodd plant Bl 5 a 6 holiadur dienw yr wythnos diwethaf ac mae'r canlyniadau yn cadarnhau hyn. Hoffwn fel ysgol ddod a hyn i sylw rhieni a'ch annog i gadw llygad ar ddefnydd eich plentyn o'r we er mwyn eu diogelwch nhw. Hefyd cofiwch ofalu fod gosodiadau preifatrwydd ymlaen ganddynt os ydynt ar wefannau cymdeithasol. Rydym yn dysgu'r plant am ddiogelwch y we yn yr ysgol ond does dim modd i ni sicrhau fod y plant yn dilyn ein cynghorion y tu allan i'r ysgol.

Following some recent lessons it's become apparent that some of the older children are looking at inappropriate content on social media. Yr 5 and 6 have recently filled in an anonomous questionnaire and the results confirm this. We as a school would like to bring this to the attention of parents and encourage you to keep a close eye on your child's use of the Internet for their own safety. Please also ensure that privacy settings are on if they are on social media. We teach the children about Internet safety in school but have no way of ensuring that the children follow our advice outside school.

Wythnos Ffermio Cymreig
Welsh Farming Week

Fel rhan o wythnos ffermio Cymreig fe fu plant Bl 3, 4 a 5 yn gwylio gwers fyw o'r enw 'Ddyddiaduron yr Oen' oedd yn eu dysgu am fywyd defaid ac wyn. Roedd hwn wedi cael ei drefnu gan NFU Cymru. Roedd yn braf gweld Gruffydd, William a Caio yn gofyn cwestiwn ar y sgrin mawr. *As part of Welsh Farming Week Yr 3, 4 and 5 had a live lesson called 'The Lamb Diaries' where they learned all about lambs and sheep. This was organised by NFU Cymru. It was great to see Gruffydd, William and Caio asking their question on the big screen!*

Mabolgampau'r Ysgol / *School Sports*

Bydd Mabolgampau yr ysgol yn cael eu cynnal b'nawn **Llun Gorffennaf 10fed** am 1pm ac fe fydd croeso i'r rhieni ddod i wylio. Bydd angen i'r plant ddod i'r ysgol yn eu dillad ymarfer corff gyda crys – t yn lliw eu timau. Mae gan y rhan fwyaf grysau polo neu grys t gwyn a gwyrdd gan ei fod yn rhan o'r wisg ysgol, gadewch i'r ysgol wybod os ydych yn cael trafferth dod o hyd i grys t coch. Bydd gofyn i'r rhieni meithrin ddod a'u plant yn ôl i'r ysgol erbyn 1pm os ydynt am gymeryd rhan. Rydym yn gobeithio gorffen am 3pm. Cofiwch adael i'r ysgol a'r dreifar bws mini wybod os na fydd eich plant yn mynd adre ar y bws y diwrnod yma. Os ydy hi'n bwrw glaw neu'r llawr yn wlyb byddwn yn gohurio y mabolgampau ac yn aildrefnu.

The Sports day will be held on ***Monday July 10th*** *at 1pm. The children will need to come to school in their PE uniform but wearing their team colours. Most children already have green or white polo shirts / t-shirts as it is part of the school uniform, if you have trouble getting a red t shirt please let the school know as soon as possible. The nursery parents will need to bring the children back to school for 1pm. We hope to finish by 3pm. Please let the school and bus drivers know if your child will not need the minibus that day. If it is raining or the ground is wet we will postpone the sports and re arrange.*

Llysoedd 2023

Hiraethog – Coch/Red

Bl 6- Liwsi, Elsi, Deio, Cai, Ellie
Bl 5 – Harri, Ana, Lili
Bl 4 – Tesni, Hari Bryn, Thomas J
Bl 3 – Jac
Bl 2 – Ifan, Dwynwen, Lucas
Bl 1 – Elin, Gwenlli
Derbyn – Olivia, Max, Gruffydd
Meithrin – Gethin, Kitty, Hari, Brodie

Pincyn Llys – Gwyrdd/Green

Bl 6 – Mia, Gwydion, Lili, Cian, Wil
Bl 5- Magi, Aron, Gruffydd
Bl 4 – Eli, Henri, Logan
Bl 3 -Tomos Ll, Morus
Bl 2 – Noa, Alice, Nedw, Deri
Bl 1 – Hannah, Theo
Derbyn – Lora, Megan, William
Meithrin – Nel, Owain, Efa

Bannog – Gwyn/White

Bl 6 – Kaitlyn, Tomi, Ifan
Bl 5 – Elis, Elsa, William, Caio
Bl 4 – Leia, Anwen, Harry Ll. Ifan
Bl 3 - Harri G, Sara
Bl 2 – Dion, Lois, Owi, Daisy
Bl 1 – Guto,
Derbyn – Macs B. Dafydd, Isabella
Meithrin – Max F, Bedo, Mari